

# **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

COFNODION CYNGOR 3 IONAWR 2017

## **Presennol**

Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng B Owen

I C Thomas, W L Davies, W R Owen, H W Roberts, M Thomas,  
A Hopcyn, E Lovgreen, T Thomas, K Williams, C Williams

### **1. Ymddiheuriadau**

Cyng A Bohana, Cyng W T Owen, Cyng M Sarnacki,  
Cyng G Thomas (c), Cyng G Thomas (p)

### **2. Cyhoeddiadau'r Maer**

Nodwyd newyddion trist bod Cyn Faer Dinbych Raymond Bartley wedi marw dau ddiwrnod cyn y Nadolig , un oedd yn ffrind da i'r Cyngor - safodd pawb am funud er cof amdano

Cyngerdd Ysgol Pendalar

O amgylch y cartrefi a ysbytai – wedi derbyn croeso mawr yno  
Recordio ar gyfer y sgrin fawr

### **3. Datgan Buddiant Personol**

Cyng W R Owen – cynllunio

**4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc).** Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

### **5. Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i. Cyngor, 6 Rhagfyr 2016 (yn cynnwys 2 farn cyfreithiol + 3 gwahanol fersiwn o'r Amcangyfrifon yn ddibynnol ar pa opsiwn 'cyfrif argyfwng' sydd yn cael eu dewis)

#### **Penderfynwyd**

Derbyn y cofnodion fel rhai cywir a mabwysiadu opsiwn 2 o'r amcangyfrifon (6 o blaid, 2 yn erbyn, 2 ymatal)

(cyrhaeddodd Cyng W R Owen am 6.17)  
Cafodd y cyfieithydd ei rhyddhau am 6.20)

## 6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

### **Penderfynwyd**

1.C16/1586/14/HY

**Cytuno**

Cais i adnewyddu arwyddion presennol

**Morgan Lloyd, 10 Y Maes, Caernarfon**

\*\*\*\*\*

2. C16/1460/14/LL

**Cytuno**

Ymestyn y man decio presennol (cais  
ol-weithredol)

**Alexandra Hotel North Road, Caernarfon**

\*\*\*\*\*

3. C16/1626/14/LL

**Cytuno**

Dymchwel y lolfa haul a'r estyniad  
i'r cegin presennol a chodi estyniad  
deulawr yn eu lle ynghyd a decio  
coedyn yn y cefn

**Llys Llewelyn, 10 Muriau Park, Caernarfon**

## 7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

### **Penderfynwyd**

Derbyn au talu ( unfrydol)

### **8.Cysoni Cyfrifon**

#### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

## 9. Cyngor Gwynedd

Parthed 'Bod yn Gynghorydd'

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ( 11 o blaid)

## 10. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Wedi symud o Gyngor Rhagfyr

Anfodlon a'r ymateb

Mae'r darpariaeth presennol yn Ysbyty Gwynedd y gorau yn Gymru felly pam ei newid .

Maent yn son bod nhw yn dilyn argymhelliad y Gymdeithas Fasgiwlar , ond mae'r gymdeithas yn nodi mewn adroddiad bod ardaloedd gwledig yn wahanol ac ar sail hyn mae'r Alban wedi mabwysiadu ffordd gwahanol

### **Penderfynwyd**

Ysgrifennu eto yn nodi ein anfodlonrwydd gan bod yr arbenigedd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd dim pwrpas ei symud,

Ydi hyn yn golygu bod Glan Clwyd am gael ei droi yn ganolfan ganolig i bob dim ? sut fyddai hyn yn realistig?

Erfyn iddynt edrych ar sefyllfa'r Alban gan ein bod ninnau hefyd yn ardal gwledig (11 o blaid)

## 11. Active Travel Act

i) Diweddariad lafar gan y Clerc o gyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd

ii) e-bost parthed hyfforddiant

### **Penderfynwyd**

i. Trefnu cyfarfod arall efo o leiaf un cynghorydd i bob ward ag Estyn gwahoddiad i Mr Alun Roberts os y bydd eisiau mynychu gan bod ganddo diddordeb mawr yn y maes yma

Menai – Cyng E Lovgreen, Cyng W L Davies ac efallai Cyng I C Thomas

Peblig – Cyng B Owen a Cyng K Williams os yn rhydd

Cadnant – Cyng C Williams

Seiont – dim enw

(unfrydol)

ii) Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

## 12. Rhybudd o Gynnig Cyng. W. R. Owen

Parthed Rhaglen

### **Penderfynwyd**

Derbyn cynnwys y rhybudd sef bod pob cynghorydd yn derbyn copi o rhaglen y panel cyllid hyn allan ( unfrydol)

### 13. Llythyrau diolch

- i) Galeri
- ii) Cylch Llenyddol Caernarfon

#### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ( unfrydol)

### 14. Adroddiad Cyng. Ann Hopcyn

Parthed Cadw

#### **Penderfynwyd**

Anfon llythyr i Laurence Smith i argymhell bod grwp bychain o'r 4 cyngor yn cyfarfod o dan ymbarel Cadw gan cynnig i'r cyfarfod gyntaf fod yn fan hyn

### 15. Digwyddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Llandudno 26 Ionawr 10.30 - 12.30

#### **Penderfynwyd**

Cyng M Sarnacki a'r clerc i fynychu (unfrydol)

### 16. Llywodraeth Cymru

Swm adran 137 ar gyfer 2017 – 2018

#### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

### 17. Unllais

- i) Adroddiad pwyllgor Ardal
- ii) Dyddiadau cyrsiau

#### **Penderfynwyd**

- i) Derbyn er gwybodaeth ( unfrydol)
- ii) Enwau i'r clerc (unfrydol)

### 18. Llywodraeth Cymru

E-bost parthed etholiad 2017

#### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

### 19. **Llythyr ymateb S4C**

Siomedig iawn o'r ymateb

Cafwyd sgwrs eang ar y pwnc a ddim yn sicr lle i droi nesaf

Teimlai'r Cynghorwyr fel corff oedd yn rhan o'r broses

ymghynghorol yn y cychwyn ( pan oedd Caernarfon o dan ystyriaeth )

bod ganddo ni ddal hawl i lais ar y pwnc . Teimlad cryf bod angen

trylowdeb ac felly

#### **Penderfynwyd**

Ysgrifennu at Llywodraeth Cymru yn nodi ein pryderon ar y mater ,a

cwestiynnu S4C beth oedd y cytundeb gwreiddiol rhwng Brifysgol Dewi

Sant a S4C (copi i'r Brifysgol)

a danfon copi o'r llythyrau i Cyngor Gwynedd adran economi (unfrydol)

### 20. **Llythyrau gan y Swyddfa Bost yn nodi cau cangen lleol dros dro**

#### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

### 21. **Cwestiynau**

Oes posib sicrhau bydd y canllawiau i'r cyfrif argyfwng ar rhaglen  
Cyngor yn fuan ? oes

Oes posib trio denu pobl o'r cruise ship mawr i Gaernarfon ? Oes cysylltu  
efo Hwb

Gorffenodd y cyfarfod am 7.15

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....